



YSGOL HAFAN Y MÔR
Heywood Lane,
Dinbych y Pysgod/ Tenby,
SA70 8BZ
☎ 01834-843248

admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk

 Ysgol Hafan y Mor, Dinbych y Pysgod



ysgolhafanymor.cymru



@hafanymortenby

30.11.18

Annwyl rieni

Sêr yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Dai, Eden, Leo, Eli, Marlii a Jac am fod yn sêr yr wythnos - 30.11.18!

Etholiadau Rhiant Llywodraethol

Gofynnwn yn garedig i chi bleidleisio a dychwelyd i'r ysgol erbyn dydd Iau, Rhagfyr 13eg 2018.

Gala Nofio'r Urdd

Llongyfarchiadau gwresog i bawb a gymerodd rhan yng ngala nofio'r Urdd yn Hwlfordd ar ddydd Mercher, 28.11.18. Diolch i'r rhieni a aeth â'u plant lawr i gystadlu ac i Mrs Anwen Walters, yr aelod o staff wnaeth gorychwilio'r plant wrth iddynt gystadlu.

Ffair lyfrau

Cynhaliom ffair lyfrau Cymraeg yr wythnos hon ac roedd hi'n llwyddiant arbennig. Diolch yn fawr i bawb buodd yn cefnogi'r fenter newydd. Gobeithiwn y byddwn yn medru cael rhagor o lyfrau i lyfrgell yr ysgol am gynnal y ffair 1af am Gyngor Llyfrau Cymru!

Sioe Nadolig Pysgod Chwim (Dosbarth Meithrin) a Sêr y Môr (Dosbarth Derbyn)

Mi fydd sioe Nadolig Pysgod Chwim (Dosbarth Meithrin) a Sêr y Môr (Dosbarth Derbyn) yn cael ei gynnal ar ddydd Iau, Rhagfyr 6ed am 10yb yn neuadd yr ysgol. Bydd y sioe yn para tua 30munud. Ni fydd tâl mynediad ond byddwn yn gofyn am gyfraniad ar y diwrnod ac mi fydd yr arian yn mynd tuag at gronfa'r ysgol i brynu offer Addysg Gorfforol ac Ipadiau newydd.

Cyngerdd Carolau - bl. 1 - 6

Eleni mi fyddwn yn cynnal cyngerdd carolau yn eglwys Santes Fair am 6yh ar ddydd Iau, Rhagfyr 6ed. Mi fydd disgyblion yn adrodd hanes stori'r Nadolig, actio'r stori a byddwn yn canu carolau i ddathlu'r Wyl. Ni fydd tâl mynediad ond byddwn yn gwneud casgliad yn ystod y gwasanaeth ac mi fydd yr arian yn mynd tuag at gronfa'r ysgol i brynu offer Addysg Gorfforol ac Ipadiau newydd.

Cinio Corach

Mi fydd bwydlen cinio ysgol yn newid ar gyfer dydd Gwener, Rhagfyr 7fed er mwyn codi ymwybyddiaeth am yr elusen 'Alzheimer's Society'. Gweler poster ar dudlaen Facebook yr ysgol.

Bingo Nadolig

Mae disgyblion y Cyngor Ysgol yn trefnu Noson Bingo ar Ragfyr 12fed am 6yh. Gofynnwn yn garedig i chi gefnogi'r noson a'r plant yn eu hymdrechion i godi arian tuag at brynu offer Addysg Gorfforol ac Ipadiau newydd.

Cinio Nadolig - Rhagfyr 12fed

Mi fydd cinio Nadolig yr ysgol ar ddydd Mercher, Rhagfyr 12fed. Os ydych yn dymuno i'ch plentyn cael cinio Nadolig a wnewch chi sicrhau bod y ffurflen archeb yn cael ei dychwelyd i'r ysgol erbyn dydd Mercher, Rhagfyr 5ed.

Bydd disgyblion Pysgod Chwim (dosbarth Mrs Griffiths) yn gallu aros am ginio os dymunant a dylid eu casglu am 1pm o'r brif dderbynfa. Sicrhewch eich bod yn rhoi gwybod i Mrs Griffiths neu Mrs Swenson os yw'ch plentyn yn aros. Pris cinio yw £2.35 a dylid ei dalu ar-lein. Os nad oes gennych gyfrif ar-lein, siaradwch â Mrs Helen Webster, goruchwyliwr arian cinio

Hamperi Nadolig

Mi fydd rhestr i greu Hamperi Nadolig ar gael ym mhob dosbarth o ddydd Llun, Tachwedd 26ain ymlaen. Gofynnwn yn garedig i chi nodi eich enw ar bwys yr eitem/au hoffech gyfrannu at yr hamper. Byddwn yn danfon sgwariau raffl adref gyda'r plant i werthu er mwyn ceisio ennill yr hamper wythnos nesaf hefyd. Bydd y raffl yn cael ei dynnu ar y noson Bingo. Diolch am eich cefnogaeth o flaen llaw.

Diwrnodau ymgartrefu

Byddwn yn croesawu ein plant newydd sydd yn dechrau yn yr ysgol ar ôl gwyliau'r Nadolig, ar fore dydd Mawrth, Rhagfyr 11eg, bore dydd Iau, Rhagfyr 13eg a bore dydd Llun, Rhagfyr 17eg ar gyfer eu cyfnodau ymgartrefu.

Taith Nadolig

Eleni, bydd disgyblion yn y dosbarth Derbyn - Bl.6 yn gwyllo Pinocchio yn Theatr Torch, Aberdaugleddau ddydd Llun, Rhagfyr 10fed. Cost y daith yw £10 y plentyn. Bydd angen pecyn bwyd a diod ar eich plentyn. Gweler y ffurflen ganiatâd atodedig. Mae'n rhaid ei dychwelyd gyda'r taliad erbyn dydd Gwener, 7fed Rhagfyr. Os nad yw'ch plentyn / plant yn mynychu, rhaid iddynt ddod i'r ysgol fel arfer.

Bydd disgyblion yn nosbarth Pysgod Chwim (dosbarth Mrs Griffiths) yn mynd i Ocean Commotion am fore. Dyddiad ac amserau i'w cadarnhau

Siarter Iaith Gymraeg - Band y mis 'Yws Gwynedd'

Fel rhan o'n siarter iaith Gymraeg rydym yn annog y disgyblion i wrando ar gerddoriaeth Gymreig a dysgu rhai caneuon Cymraeg. Yn ystod gwasanaeth ddydd Mercher, pleidleisiodd y plant ar gyfer Yws Gwynedd. Mae Yws Gwynedd yn fand Roc Cymreig o Ogledd Cymru a enwir ar ôl ei brif ganwr, Ywain Gwynedd. Gellir canfod y caneuon ar 'You Tube' trwy ddilyn y dolenni isod * Cofiwch nad ydym yn gyfrifol am gynnwys fideos.

<https://www.youtube.com/watch?v=PADjnW0cndk>

<https://www.youtube.com/watch?v=OZkGqUpR3lo>

Byddwn hefyd yn cyflwyno idiom y mis:

Idiom yr wythnos hon yw **'Dros ben llestri'**

Diolch am eich cyd-weithrediad a'ch cefnogaeth

V Griffiths

Mrs Griffiths
Pennaeth

Wythnos yn cychwyn: 3.12.18		Week commencing: 3.12.18	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau		Events and News Bulletin	
<u>Dyddiad</u>	<u>Digwyddiad</u>	<u>Date</u>	<u>Event</u>
03.12.18 <u>Dydd</u> <u>Llun</u>	<u>Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs Hughes a Mr Thomas</u> Rhaid i bob plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	03.12.18 <u>Monday</u>	<u>PE lessons for Mrs Hughes & Mr Thomas' class</u> All pupils must bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
05.12.18 <u>Dydd</u> <u>Mercher</u>	<u>Mercher Mwdlyd</u> -Cofiwch ddrillad allanol i'ch plentyn heddi os ydynt yn nosbarth <u>Sêr y Môr, Cregyn neu Ynys Bŷr</u>	05.12.18 <u>Wednesday</u>	<u>Muddy Wednesday</u> - Please remember that your child requires outdoor clothes today if he/she is in <u>Sêr y Môr, Cregyn or Ynys Bŷr class</u>
05.12.18 <u>Dydd</u> <u>Mercher</u>	<u>Clybiau ar ôl ysgol (3.05 - 4.15yp)</u> Clwb Crefft - Bl. 2, 3 + 4	05.12.18 <u>Wednesday</u>	<u>After school clubs (3.05 - 4.15yp)</u> Clwb Crefft (Craft) - Yr. 2, 3 & 4
06.12.18 <u>Dydd</u> <u>Iau</u>	<u>Cyngerdd Nadolig</u> dosbarth Meithrin a Derbyn (Mrs Griffiths + Mrs Phillips) yn neuadd yr ysgol am 10yb	06.12.18 <u>Thursday</u>	<u>Christmas concert</u> for Nursery & Reception (Mrs Griffiths + Mrs Phillips) pupils @ Ysgol Hafan y Mor 10am
06.12.18 <u>Dydd</u> <u>Iau</u>	<u>Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs King a Mrs Walters (Bl. 1 a 2)</u> Rhaid i bob plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	06.12.18 <u>Thursday</u>	<u>PE lessons for Mrs King & Mrs Walters' class (Year 1 & 2)</u> All pupils must bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
06.12.18 <u>Dydd</u> <u>Iau</u>	<u>Eleni byddwn yn cynnal Cyngerdd Carolau a stori'r geni ar gyfer disgyblion Bl. 1 - 6.</u> Yn eglwys Santes Fair am 6yh. Croeso cynnes i bawb.	06.12.18 <u>Thursday</u>	This year we will be holding a <u>Carol Concert and Nativity service for yrs. 1 - 6 pupils</u> . The service will be held in St Mary's Church, Tenby at 6pm. A warm welcome is extended to all.
07.12.18 <u>Dydd</u> <u>Gwener</u>	<u>Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs Phillips (Sêr y Môr) a dosbarth Mrs Griffiths (Pysgod Chwim)</u> Rhaid i bob plentyn yn <u>Sêr y Môr</u> ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	07.12.18 <u>Friday</u>	<u>PE lessons for Mrs Phillips' class (Sêr y Môr) & Pysgod Chwim, Mrs Griffiths' class</u> All pupils in <u>Sêr y Môr</u> must bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
07.12.18 <u>Dydd</u> <u>Gwener</u>	<u>Gweithgareddau Hafan Cymru</u> - mi fydd asiantaeth Hafan Cymru yn cydweithio gyda disgyblion Bl. 2 a 6 i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o berthnasoedd iach ac hapus.	07.12.18 <u>Friday</u>	<u>Hafan Cymru activities</u> - Hafan Cymru will be working with pupils in yr. 2 & 6 to develop their understanding of positive and healthy relationships.
07.12.18 <u>Dydd</u> <u>Gwener</u>	<u>Gwersi nofio</u> i ddosbarth yr Harbwr (Mrs Hughes / Miss Jones)	07.12.18 <u>Friday</u>	<u>Swimming lessons</u> for Harbwr class (Mrs Hughes / Miss Jones)

Gwybodaeth - Information

Presenoldeb wythnos yn gorffen: 30.11.18 - 95.85% (Targed yr Ysgol: 95.1%)

Attendance week ending: 30.11.18 - 95.85% (School's attendance target: 95.1%)

Reg		
Reg	Authorised Absence	Attended
Cregyn	0.48	99.52
Cychod	7.41	92.59
Pysgod Chwim	3.38	96.62
Ser Y Mor	1.67	98.33
Ynys Byr	3	97
Yr Harbwr	7.14	92.86

Newyddion da - rydyn ni'n uwch na tharged yr ysgol yr wythnos hon ac rydym yn cael eu hystyried yn wyrdd eto! Diolch.

*** Presenoldeb disgyblion oed ysgol - 95.1%**

Gwybodaeth ynglŷn â dyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)

Gwyliau Nadolig	24.12.18 - 4.01.2019
HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)	07.01.2019 + 08.01.2019
Hanner Tymor	25.02.2019 - 01.03.2019
HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)	12.04.2019
Gwyliau Pasg	15.04.2019 - 26.04.2019
Gwyl y Banc (ysgol ar gau)	06.05.2019
Hanner Tymor	27.05.2019 - 31.05.2019
HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)	22.07.2019

GWERSI ADDYSG GORFFOROL

Noder os gwelwch yn dda, rhaid i bob plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.

Dosbarth Mr Thomas (Cychod) + Mrs Hughes' (Harbwr) Class -

Dydd Llun / Monday

Dosbarth Mrs King (Ynys Bŷr) + Mrs Walters (Cregyn) Class -

Dydd Iau / Thursday

Dosbarth Mrs Phillips (Sêr y Môr) Class -

Dydd Gwener / Friday

*Dosbarth Mrs Griffiths (Pysgod Chwim) -

Dydd Gwener / Friday

*Nid oes angen iddynt fod yn cit ymarfer corff ffurfiol / These pupils do not need to wear formal PE kit

INCLEMENT WEATHER

I would like to remind all parents of the procedures for inclement weather and school closure. Updates relating to school closures or other alerts can be found on the following pages:-
The Council's website at:- www.pembrokeshire.gov.uk/alerts

You can register for alerts by creating your own account by using the following web address: <https://myaccount.pembrokeshire.gov.uk/>

The Council's Twitter and Facebook pages will also be updated with alerts:-

www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil

www.twitter.com/Pembrokeshire

Dyddiadau o flaen llaw		Future dates	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau		Events and News Bulletin	
Dyddiad	Digwyddiad	Date	Event
10.12	<u>Panto Pinocchio - Dosbarth Derbyn - Bl. 6</u> . Manylion pellach i'w dilyn	10.12	<u>Pinocchio pantomime - Reception - yr. 6</u> . Further details to follow
12.12	<u>Cinio Nadolig Ysgol</u>	12.12	<u>School Christmas lunch</u>
12.12	<u>Bingo Nadolig yr Ysgol am 6yh</u> . Mae disgyblion y Cyngor Ysgol a Llysgenhaddon Chwaraeon yn trefnu Bingo Nadolig er mwyn codi arian tuag at brynu offer chwaraeon. Lledwch y gair ac edrychwn ymlaen at eich gwled yno i gefnogi'r plant.	12.12	<u>Christmas Bingo at 6pm</u> . Pupils in the School Council and Sports Ambassadors are organising a Christmas Bingo to raise money to purchase sports equipment. Please spread the word, we look forward to welcoming you to the evening and supporting the children.
21.12	<u>Diwrnod Siwmpwr Nadolig - Gofynnwn</u> yn garedig i blant wisgo siwmpwr Nadolig a dod a chyfraniad o £1 neu'n fwy tuag at yr elusen. Byddwn hefyd yn cynnal parti Nadolig ac yn cael ymwelydd arbennig i'r ysgol!	21.12	<u>Christmas Jumper Day</u> - We kindly ask that pupils wear a Christmas Jumper to school and bring a donation of £1 or more for the appeal. We will also be holding a Christmas party and a special visitor will be visiting the school!
24.12.18 - 04.01.18	<u>Gwyliau Nadolig</u>	24.12.18 - 04.01.18	<u>Christmas Holidays</u>
07.01.18 + 08.01.18	<u>HMS - Ysgol ar gau i ddisgyblion</u>	07.01.18 + 08.01.18	<u>INSET - School closed to all pupils</u>
	Dyddiad newydd / New Date		

Ffurflen ganiatad taith Nadolig - Consent forms for Christmas trip

PANTO 'PINOCCHIO', THEATR TORCH,
ABERDAUGLEDDAU

Rhagfyr 10fed - Dydd Llun
Blynyddoedd; 1, 2, 3, 4, 5 a 6

Enw'r Plentyn

Rwyn caniatáu / Nid wyf yn caniatáu i'm
plentyn fynd i PANTO 'PINOCCHIO',
THEATR TORCH, ABERDAUGLEDDAU.

Amgaeaf taliad o £10

Siec yn daladwy i Ysgol Hafan y Môr.

Llofnod Rhiant

Dyddiad

Dychwelwch erbyn dydd Gwener, Rhagfyr
7fed. Diolch

***Noder; ni fydd ad-daliad os yw plentyn yn
methu mynychu gan fod rhaid talu o flaen llaw
am y tocyn.**

***Bydd angen pecyn bwyd a diod**

'PINOCCHIO' PANTO, TORCH
THEATRE

MILFORD HAVEN
10th December - Monday
Years 1, 2, 3, 4, 5 & 6

Child's name

I consent / do not consent for my
child to attend the 'PINOCCHIO'
PANTO, TORCH THEATRE, MILFORD
HAVEN.

I enclose £10 payment

*Cheques made payable to Ysgol Hafan y
Môr.*

Parent's Signature

Date

Please return by Friday, 7th December
Thank You

***Note; No refunds will be given if your
child is unable to attend as tickets have
been purchased beforehand.**

***Packed lunch & a drink will be required**